# 4.0 Gwirfoddolwyr

## Gwerth Economaidd Gwirfoddolwyr

## Trosolwg


1. Rhagymadrodd
2. Gwerth Economaidd Gwirfoddolwyr
3. Cost Cynnwys Gwirfoddolwyr
4. Meysydd Buddsoddi neu Gost
5. Cynnwys Amser Gwirfoddolwyr mewn Ceisiadau Cyllido
6. Gwybodaeth Bellach


## Rhagymadrodd

Mae gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol, mewn oriau heb dâl, i economi Cymru.

Yr amcangyfrif yw bod tua **938,000 o wirfoddolwyr** yn cyfrannu 145 miliwn o oriau pob blwyddyn, sydd **werth £1.7 biliwn**.

Mae hyn gyfwerth ag oddeutu 3.1% o Gynnyrch Domestig Gros Cymru (Adroddiad Cynllun y Trydydd Sector 2017-18 Llywodraeth Cymru).




Llun: Grŵp o wirfoddolwyr hapus

Mae gwerth arwyddocaol hefyd i wirfoddoli, nad yw mor hawdd ei ddiffinio mewn termau ariannol, o ran cydlyniad cymdeithasol, cynhwysiant, adfywio economaidd, a datblygu cyfalaf cymdeithasol.

## Gwerth Economaidd Gwirfoddolwyr

Gofynnir i lawer o fudiadau sydd yn cynnwys gwirfoddolwyr beth yw gwerth economaidd y gwaith y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud. Gall hyn fod i ddangos yr arbedion i wasanaeth drwy gynnwys gwirfoddolwyr, neu gall fod ar gyfer cyllidwyr a mudiadau rhoi grantiau a allai ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer cyfraniad gwerth mewn nwyddau gan wirfoddolwyr.

Os ydych chi angen yr wybodaeth yma ar gyfer cais grant, mae'n bosibl y bydd y rhoddwr grant yn nodi pa gyfraddau maen nhw'n eu derbyn ar gyfer amser gwirfoddolwyr mewn gwahanol rolau (gweler isod), ond mae'n bosibl na wnaiff eraill, felly bydd angen ichi gyfrifo hyn ac egluro sut y cafodd ei gyfrifo.

Y ffordd hawsaf o gyfrifo gwerth economaidd cyfraniad gwirfoddolwyr yw defnyddio'r cyflog cenedlaethol yr awr gan ddefnyddio'r fformiwla isod:

**Nifer y gwirfoddolwyr x nifer cyfartalog yr oriau x cyflog cyfartalog yr awr**

WWW

**Dolen Allanol**

Cyflog cyfartalog gros yr awr ar gyfer cyflogai amser llawn yng Nghymru yn 2019 yw £13.53. Mae'r ffigur hwn i'w gael ar wefan StatsCymru sydd hefyd yn darparu data ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru,

Gwefan StatsCymru

## Cost Cynnwys Gwirfoddolwyr

Mae'n bosibl hefyd y byddwch am gymryd golwg ar faint mae'n costio i gynnwys gwirfoddolwyr yn eich gwaith. Er mwyn sicrhau bod cyfraniad gwirfoddolwyr o'r safon uchaf, mae'n hanfodol eu bod wedi eu hyfforddi a'u paratoi yn dda, a'u bod yn cael eu rheoli'n effeithiol, ac mae cost ynghlwm wrth hyn bob tro. Fodd bynnag, mae'r gost yn llawer llai na gwerth canlyniadau eu gwaith.

# Meysydd Buddsoddi neu Gost

Gall mudiadau sydd yn cynnwys gwirfoddolwyr fynd i gostau yn y meysydd a ddisgrifir isod. Mae modd disgrifio rhai o'r costau yma fel rhai 'hanfodol', mae rhai eraill yn feysydd o arfer da, a gellir ystyried eraill i fod yn 'ychwanegol' neu'n 'gostau eraill i'w hystyried'.

## Hanfodol:

- **Gweinyddu gwirfoddolwyr** – cefnogaeth a chydnabyddiaeth weinyddol, gan gynnwys treuliau swyddfa, cyfathrebu, cyfarfodydd a chynulliadau, digwyddiadau, tystysgrifau ac ati.
- **Hysbysebu a recriwtio** - bydd y costau yn ddibynnol ar ba un ai a oes angen talu am hysbysebu ai peidio, argraffu taflenni a phosteri ac ati.
- **Sefydlu a hyfforddi** - ar gyfer rhai mathau o wirfoddoli gall hyn fod yn sylfaenol iawn - yn syml, paratoi'r gwirfoddolwyr ar gyfer eu rôl. I eraill gall hyn greu costau sylweddol, megis hyfforddi cwnselwyr neu gynghorwyr gwirfoddol.
- **Gweinyddu cyflenwadau** - cyflenwadau ac offer i alluogi'r gwirfoddolwr i berfformio tasgau a gytunwyd; fe all y gost yma fod yn uwch yn dibynnu ar y gweithgaredd gwirfoddoli e.e. mae'n bosibl y bydd costau o ymgymryd â gwaith ieuenctid neu fentora wrth wneud gweithgareddau gyda phobl ifanc.
- **Yswiriant** – dylai'r yswiriant gwmpasu pob atebolrwydd i wirfoddolwr a phob atebolrwydd sydd gan y mudiad wrth iddynt gynnwys gwirfoddolwyr mewn tasgau.
- **Costau adeiladau a threuliau** - mae angen dosrannu gwres a golau, gwaith trwsio, diogelwch a chostau eraill i'r holl bobl hynny sydd yn elwa arnynt, gan gynnwys gwirfoddolwyr.

## Arfer Gorau:

- **Rheoli Gwirfoddolwyr** – cyflogi Cydlynydd neu Reolwr Gwirfoddoli, ble mae hynny'n briodol, o fewn mudiad – gall swydd o'r fath helpu gyda chadw gwirfoddolwyr.
- **Llety a bwyd** – mae'n arfer da talu'r costau hyn pan fo rhywun yn gwirfoddoli o gartref.
- Yr amser y mae rheolwyr a phersonél eraill yn ei fuddsoddi mewn mudiad i gefnogi gwirfoddolwyr a gwirfoddoli (yn ychwanegol i unrhyw Gydlynydd Gwirfoddol).
- **Treuliau Gwirfoddolwyr** - mae'n arfer da ad-dalu costau teithio a threuliau parod gwirioneddol sydd gan wirfoddolwyr ac mae'n galluogi pobl na fyddai fel arall yn gallu gwirfoddoli i wneud hynny.

## Costau Ychwanegol i'w Hystyried, os yn Berthnasol

- Hyfforddiant achrededig – gwirfoddolwyr
- Costau trwyddedu TG
- Mae rhai mudiadau yn ad-dalu costau gofal plant neu gostau gofalu
- Cost diweddaru yswiriant car at ddefnydd busnes (i allu gwirfoddoli)
- Offer diogelwch personol e.e. cymorth cyntaf, ffôn symudol
- Costau ychwanegol ar gyfer gwirfoddolwyr sydd ag anghenion arbennig e.e. tacsi neu gostau gweithiwr cymorth
- Gwisg/bathodynnau gwirfoddolwyr
- Cost cyflawni'r **Safon Ansawdd Buddsoddi Mewn Gwirfoddolwyr**

# Cynnwys Amser Gwirfoddolwyr mewn Ceisiadau Cyllido

Gall cost cynnwys gwirfoddolwyr amrywio'n sylweddol yn ôl natur y rôl sydd ganddynt, a diwylliant a maint y mudiad. Er enghraifft, mae rhai rolau yn golygu bod angen hyfforddi gwirfoddolwyr ac fe all hyn fod yn hir a chostus. Gall costau rhai mudiadau fod yn is am eu bod dim ond yn recriwtio gwirfoddolwyr sydd yn meddu ar yr arbenigedd sydd ei hangen, neu am fod y lefel sgiliau sydd ei hangen yn is. Gall costau teithio amrywio e.e. gall costau cludiant fod yn uwch mewn ardaloedd gwledig ble mae rhanbarthau daearyddol mawr yn cael eu gwasanaethu.

Bydd angen rheoli a rheoleiddio gweithgareddau gwirfoddolwyr yn fwy tynn mewn mudiadau sydd yn contractio i ddarparu gwasanaethau yn hytrach na phrosiect cymunedol, er enghraifft, ble mae gwirfoddoli yn cael ei werthfawrogi mwy fel math o ymgysylltu cymunedol na modd o ddarparu gwasanaeth. Yn seiliedig ar yr uchod, dylid cydnabod bod cost cynnwys gwirfoddolwyr yn amrywio'n fawr iawn o un mudiad i'r llall. Mae amser gwirfoddolwyr fel ased ariannol wedi tyfu mewn pwysigrwydd gyda chyllidwyr. Fodd bynnag, mae'r gwerth a briodolir yn amrywio o gronfa i gronfa.

Lluniwyd y rhestr ganlynol o gyfraddau i fod yn ganllaw ar y gwerth y mae rhai cyllidwyr yn ei roi ar amser gwirfoddolwyr.

Mae **StatsCymru** yn argymell yr enillion canolrif gros yr awr ar gyfer gwaith amser llawn (2019) - £13.53

Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** yn cefnogi defnyddio cyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw yn eu ceisiadau am gyllid, fel y nodir isod:

| Blwyddyn | 25 mlwydd oed a hŷn | 21 - 24 | 18 - 20 | Dan 18 | Prentis |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill 2019 (Cyfradd Gyfredol) | £8.21 | £7.70 | £6.15 | £4.35 | £3.90 |
| Ebrill 2020 | £8.72 | £8.20 | £6.45 | £4.55 | £4.15 |

Nid yw **Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol** yn gosod gwerth ariannol ar amser gwirfoddolwyr am nad ydynt yn gofyn am gyllid cyfatebol, ond dylai ymgeiswyr gyfeirio at y deunydd canllaw perthnasol ar gyfer y rhaglenni maen nhw'n ceisio amdanynt.

Mae **Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol** yn cynnig arweiniad ar roi pris ar werth mewnbwn gwirfoddolwyr ar brosiectau, gan asesu cyfraniad o'r ffynonellau yma fel cyllid partneriaeth ar gyfer ceisiadau loteri. I weld y canllaw cyfredol, ewch i'w gwefan.

Nid yw **Chwaraeon Cymru** yn rhoi ffigwr pendant ond yn disgwyl i fudiadau allu cyfiawnhau unrhyw gostau a roddir e.e. maen nhw'n disgwyl i lafur gwirfoddol ar waith adeiladu fod wedi ei reoli'n a'i ardystio'n broffesiynol.

## Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion y DU (ASHE) - Hydref 2018

| Rôl | Cyfradd yr Awr (£) | Y Diwrnod (£) |
|---|---|---|
| Gweinyddwr | £10.42 | £72.94 |
| Cydlynydd Prosiect | £13.57 | £94.99 |
| Hyfforddwr | £14.25 | £99.75 |
| Rheolwr | £23.07 | £161.49 |

Mae **Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd** yn derbyn amser gwirfoddolwyr fel cyllid cyfatebol. Rhaid i'r cyfraddau yr awr a hawlir fod yn berthnasol i'r gwaith sy'n cael ei wneud, a rhaid cyfiawnhau pob cost.

Nid yw **Grantiau Gwirfoddoli Cymru** yn gosod gwerth ariannol ar wirfoddoli ond yn talu treuliau parod dilys.

## Gwybodaeth Bellach

### Volunteer Investment Value Audit

**gan Katherine Gaskin.**
https://www.scribd.com/document/352352437/VIVA-The-volunteer-investment-and-value-audit-A-self-help-guide

Mae'r Volunteer Investment Value Audit (VIVA) gan y Sefydliad Ymchwil Gwirfoddoli yn edrych ar y math o waith y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud gan amcangyfrif cyfradd y cyflog ar gyfer y gwaith hwnnw, yn ogystal â chostau cynnwys gwirfoddolwyr, megis amser rheoli. Mae hyn yn rhoi cymhareb sydd yn dangos faint o werth sy'n cael ei gynhyrchu o bob punt a fuddsoddir mewn gwirfoddoli.

### Volunteering Impact Assessment Toolkit

**NCVO**
https://www.ncvo.org.uk/volunteering-management/1-publications/P78-volunteering-impact-assessment-toolkit

Mae'r Volunteering Impact Assessment Toolkit (VIAT), a ddatblygwyd gan y Sefydliad Ymchwil Gwirfoddoli (IVR) yn helpu mudiadau i asesu effaith gwirfoddoli, yn hytrach na dim ond y gwerth economaidd. Gall mudiadau asesu effaith eu rhaglen gwirfoddoli ar yr holl rhanddeiliaid - y gwirfoddolwyr, y mudiad, y buddiolwyr a'r gymuned ehangach.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.